# DINESYDD

**Ebrill**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 115


# DIEUOG!

DAETH BLYNYDDOEDD o ofid ac ofn i Gareth Westacott a'i deulu i ben yn Llys y Goron, Caerdydd, ar ddydd Iau, 29 Mawrth, pan y'i cafwyd yn ddieuog o achosi ffrwydriad yn swyddfa recriwtio'r fyddin ym Mhontypridd ar 26 Hydref, 1981, ar drothwy ymweliad gan y Tywysog Siarl a'i wraig.

Arestiwyd Westacott, a oedd ar y pryd yn gweithio fel gofalwr yn Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd, ar 6 Mai, 1982, ac ar ôl ei gyhuddo, fe'i cadwyd yn y ddalfa am fisoedd lawer cyn ei ryddhau ar fechniaeth.

Cyhuddwyd yntau ynghyd a saith arall o gyflawni troseddau unigol ac hefyd o gynllwynio i achosi ffrwydriadau. Ond pan gychwynodd yr achos yn erbyn yr wyth yn Llys y Goron, Caerdydd, ar 13 Medi, 1982, methodd Westacott ateb ei fechniaeth.

Wedi i'r achos orffen, gyda phump o'r saith a fu o flaen y llys yn dod yn gwbl rhydd, galwodd ei gyfreithiwr ar gyfarwyddwr yr Erlyniadau Cyhoeddus i ollwng y cyhuddiadau yn erbyn Westacott. Ond yn fuan wedyn cyhoeddwyd y byddai'r achos yn parhau pan fyddai'r heddlu'n dod o hyd iddo.

Ar Ionawr 2 eleni daeth Westacott yn ôl i Gaerdydd ac ildio ei hun i'r heddlu. Fe'i cadwyd yn y carchar hyd nes i'r achos yn ei erbyn gychwyn. Gollyngwyd y cyhuddiad o gynllwynio, ac fe'i cyhuddwyd o achosi'r ffrwydriad ym Mhontypridd.

Parodd yr achos naw diwrnod. Honodd yr heddlu i Westacott gyfaddef iddo osod y bom, a hynny'n ysgrifenedig, yn ogystal ag ar lafar. Cytunodd yr amddiffyniad ei fod wedi arwyddo cyfaddefiad ysgrifenedig, ond mynnodd Westacott, fel rhai o'i gyd-ddiffynyddion yn yr achos cyntaf, iddo wneud hynny o ganlyniad i bwysau gan yr heddlu.

Unwaith eto, dywedodd y Barnwr, Mr.Ustus Beldam, mai tasg y rheithwyr yn syml iawn oedd penderfynu pwy oedd yn dweud y gwir - ai'r heddlu yntau'r diffynydd. Wedi dros dair awr o ystyried daeth y rheithgor i'r casgliad unfrydol mai Gareth Westacott oedd yn dweud y gwir.

Fe'i cyhuddwyd hefyd o dorri amodau mechniaeth ac felly, dirmygu'r Llys. Dywedodd Lawrence Kershen, ar ran Westacott, iddo eisoes dreulio tri mis ar ddeg yn y carchar ar gyhuddiad y cafwyd ef yn ddieuog ohono, ac iddo drwy hynny gwneud iawn am ei ddirmyg. Ond anghytunodd y Barnwr, a phennodd dirwy o £100.

MARWOLAETH EMRYS CLEAVER




Emrys Cleaver - a fu farw ar Fawrth 17. Teyrnged gan Meredydd Evans - tudalen 3.

# LLETY'N AROS?

BU'R YMATEB i'r apêl am welyau ar gyfer oddeuty 5000 o blant ac ieuenctid yn foddhaol iawn. Mae angen rhai cannoedd eto o welyau, yn arbennig felly ar gyfer oedolion (gofalwyr a gyrrwyr) yn ardaloedd Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd.

Dymuna'r Pwyllgor Llety a Chroeso ddiolch yn ddiffuant iawn i'r cannoedd o garedigion sydd wedi cynnig llety. Bydd cysylltwr ardal yn dod i gysylltiad â phob un ohonynt yn ystod diwed Ebrill/ dechrau Mai gyda'r trefniadau terfynnol.

Os oes unrhywun a hoffai ein helpu ymhellach trwy gynnig llety i ddau blentyn neu ddau oedolyn am noson neu ragor yn ystod yr wythnos (27 Mai - 1 Mehefin), a fyddech gystal a dod i gysylltiad naill ai â Swyddfa'r Eisteddfod (Ffon: 28341), neu â'r Ysgrifenyddion, Nans Couch (753625) a Lis Evans (754396).



RHIFYN DWBWL ARBENNIG

CYHOEDDIR Y RHIFYN nesaf o'r Dinesydd ar ddydd Mawrth, 28 Mai - diwrnod cyntaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch. Yn wahanol i'r arfer bydd yn costio 20c, a bydd ar werth ar faes yr Eisteddfod yn ogystal a'r siopau Cymraeg.

## TU MEWN:


| | |
|---|---|
| Tud 3. | Ymddeoliad T.J.Davies |
| Tud 4. | Efengylwyr yn ymateb |
| Tud 7. | Newyddion y 'Steddfod |
| Tud 10. | Eisteddfod Glantaf |

# GOLYGYDDOL

PAN GAFWYD PUMP o'r diffynyddion yn achos bomiau Caerdydd yn gwbl ddi-euog o'r cyhuddiadau yn eu herbyn ym mis Tachwedd 1983, roedd disgwyl i'r heddlu ollwng y cyhuddiadau yn erbyn Gareth Westacott - y diffynnydd a ddiflanodd cyn i'r achos gychwyn.

Yn anffodus, nid oedd yr heddlu na Chyfarwyddwr yr Erlyniadau Cyhoeddus yn llawn sylweddoli arwyddocad dyfarniad y rheithgor yn yr achos hwnnw. Bu'n rhaid felly ail-adrodd yr holl broses poenus a chostus.

Unwaith yn rhagor, wedi iddynt glywed yr holl dystiolaeth a chrynhoad y Barnwr, dyfarnodd rheithgor arall yn unfrydol o blaid y diffynydd ac yn erbyn yr heddlu. Mae eu penderfyniad yn un arwyddocaol am sawl rheswm.

Yn y lle cyntaf, mae'n gadarnhad diymwad o'r hyn y bu'r diffynyddion yn ei ddweud ers eu harestio ym 1982 - sef nad oedd unrhyw wir dystiolaeth yn eu herbyn.

Yn ail mae'n tanlinellu gwerth rheithgor wrth fesur a phwyso'r dystiolaeth a ddygir yn erbyn y cyhuddedig.

Ac yn olaf mae'n gondemniad llwyr o Heddlu De Cymru a'u triniaeth o'r achosion.

Wedi'r dyfarniad cyntaf cafwyd sawl galwad am ymchwilaid cyhoeddus trwyadl i'r achos. Gwrthodwyd pob cais, a bu'n rhaid bodloni ar ymchwiliad mewnol a chyfrinachol Prif Gwnstabl Cynorthwyol Lerpwl, Peter Rawlinson, a fethodd gweld unrhyw fai ar Heddlu De Cymru, ac ar ymchwiliad "answyddogol" Ymgyrch Cymru Dros Hawliau Gwleidyddol a Sifil o dan gadairyddiaeth yr Arglwydd Gifford, a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad "Heddgadw Gwleidyddol yng Nghymru".

Yn wyneb yr ail ddyfarniad, ac yn sgil y cwestiynau difrifol ynghylch dulliau'r heddlu a godwyd gan yr adroddiad ar weithgarwch yr heddlu yn ystod streic y glowyr, "Stiking Back", rhaid pwyso unwaith eto am ymchwiliad llawn a chyhoeddus i ddulliau'r Heddlu.

Mae hynny, o leiaf, yn ddyledus i'r bechgyn a gadwyd yn y carchar am fisoedd lawer i ddisgwyl eu prawf, ac i'r cyhoedd. Byddai hefyd, yn y pendraw, o fudd i'r heddlu eu hunain.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn arbennig y 'Steddfod at Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Mai 9.

---

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at: Lynn Jones Ffon: 562816

EBRILL

13 - CLWB IFOR BACH
Y Ficar

13 - 14 Y GYMDEITHAS FEDDYGOL
Gwesty'r Parc
Cynhadledd
Croeso i aelodau newydd

14 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Parch.Leslie Evans

19 - CLWB IFOR BACH
Mynediad am Ddim &
Geraint Jarman

20 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Lloegr ar y teledu

20 - CLWB IFOR BACH
Cymru V Lloegr

20 - CERDDORFA SIAMBR CAERDYDD
Eglwys Gadeiriol Llandaf
Arweinydd: William Salaman
Unawdydd: David Norton
Cerddoriaeth gan Elgar, Rawsthorne a Beethoven.

21 - CLWB IFOR BACH
Clwb Cerdded
(Tel. 497414)

24 - CYLCH CINIO BARI A'R FRO
Gwesty'r Mount Sorrel 7.30
Gwestai: Alun Treharne

DALIER SYLW - NEWID DYDDIAD
25 - CYMDEITHAS GYMRAEG RADUR
Ymweliad â Chlwb y Dwrlyn, Pentyrch. Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, 8.00.

26 - CLWB IFOR BACH
Clwb Chwist 7.30
Elw at Gymdeithas Tai Gwynedd

27 - CLWB IFOR BACH
Geraint Lovegreen

27 - PRIFYSGOL CYMRU
Cynhadledd Undydd: "Dygymod â dwy iaith"
Adeilad y dynoliaethathau
Colum Road. 10.00 - 4.30.

MAI

3 - CLWB IFOR BACH
Clwb Chwist 7.30
Elw at Ethiopia

3 - CLWB IFOR BACH
Tecwyn Ifan

5 - CAPEL EBENESER
Noson yn nghmni
Cor Ieuenctid Rhuthun
Mynediad trwy raglen £1.25
Elw at Eisteddfod yr Urdd

5 - CLWB IFOR BACH
Clwb Cerdded
Dyffryn Gwy (Tel.497414)

8 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon.
8.00

10 - CLWB IFOR BACH
Clwb Chwist 7.30
Elw at Gartref Jane Hodge

10 - CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG
Clwb Ifor Bach
Noson gyda Ffenestri

10 - MERCHED Y WAWR
Gwibdaith a swper yng nghwmni J.Gwynfor Jones

12 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Br.James Roberts

18 - CYMRODORION CAERDYDD
Gwibdaith dan ofal y Parch.Ifor Rees

22 - CYLCH CINIO BARI A'R FRO
Gwesty'r Mount Sorrel 7.30
Cyfarfod Cyffredinol

---

"NEW POST" llongyfarchiadau i Moelwyn Jones, Verlands Close, Llandaf, ar ei benodiad yn Swyddog Hysbysrwydd y Bwrdd Post dros Gymru a'r Gororau. Bu Moelwyn yn gweithio ers rhai blynyddoedd yn Adran Gyhoeddusrwydd y BBC. Mae'n dda gwybod bod ei swydd newydd yn caniatau iddo fo a'i wraig, Delyth, aros yng Nghaerdydd.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816


**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


CEIDWAD: Llongyfarchiadau i Dr.Huw Owen ar ei benodiad yn Geidwad y Mapiau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Er ein bod yn llawenhau gyda Huw yn ei lwyddiant fe fydd yn chwith iawn gan eu ffrindiau weld y teulu, Huw a Mary a'u plant Hywel a Tomos yn gadael Caerdydd.

# YMDDEOLIAD T.J.



CYNHALIWYD CYFARFOD Cyhoeddus Blynyddol y Cyngor eleni yng Nghapel Heol y Crwys ar nos Iau, Mawrth 7. Cyfarfod arbennig ydoedd ar achlysur ymddeoliad yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Y Parch.Ddr.T.J.Davies.

Hyfryd iawn oedd gweld cynulleidfa o ryw 160 wedi ymgynnull i dalu teyrnged haeddiannol i T.J. am ei waith clodwiw gyda'r Cyngor ers 1978. Cyflwynwyd tysteb anrhydeddus iddo gan lywydd y Cyngor, Mr.Charles Langmaid.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd gair o brofiad gan Mr.Jon Jeffrey, sydd bellach yn gweithio i Gymdeithas y Beiblau yn Llundain, ond ar un adeg bu'n gaeth am flynyddoedd yng nghrafanau heroin. Amlinellodd yn effeithiol y ffordd y derbyniodd gymorth ymarferol oddi wrth T.J. Ychwanegodd fod nifer helaeth o unigolion yn ddyledus i T.J. am ei weinidogaeth amlochrog ym myd peryglus alcohol a chyffuriau.

Y mae swyddogion y Cyngor yn ddiolchgar fod T.J. yn parhau i weithio yn gynorthwyol fel Ymgynghorydd Addysgol. Bellach y mae cenhadaeth y Cyngor yn parhau o dan arweiniad y Cyfarwyddwr newydd, Y Parch.D.Eirian Rees a'r Parch Gwilym E.Davies.

O.N. Fel Ysgrifennydd tysteb T.J. a gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i ddarllenwyr Y Dinesydd a gyfranodd i gydnabod ei weinidogaeth amrywiol.

Y mae copiau o anerchiad ymadawol T.J., "Gad i'm pobl fynd" ar werth am 25c (4 am £1). Yn sicr mae deunydd pwrpasol ynddo ar gyfer dosbarth trafod.

Parch.Gwilym E.Davies.

# EMRYS CLEAVER

TEYRNGED GAN Y DR.MEREDYDD EVANS

Y PARCH.W.Emrys Cleaver; Emrys; Cleaver; Em; yr un person o dan yr holl enwau gwahanol, ac i'r rhai hynny ohonom a gafodd y boddhad o'i adnabod yn weddol dda cymeriad diddorol: "cymêr", yn wir. Bu farw ar ddydd Sul, 17 Mawrth, yn bedwar ugain mlwydd oed.

Cyfuno doniau a wnaeth ef erioed a chyfuno ymrwymiadau i'w fagwraeth grefyddol, addysgiadol ac adloniannol. Ni welodd unrhyw wrthdaro rhwng pulpud, stiwdio, llwyfan, cwmniaeth lawn mewn gwesty ac ar aelwyd, twmpath dawns a llyfrgell. Fy argraff i oedd iddo gael y byd hwn, ar y cyfan, yn lle eithaf difyr ac nid y wedd leiaf ar ei apêl ato oedd yr ymrywiaeth a berthynai iddo. Nid gŵr yr un lliw a'r un sain mo Emrys.

Bu'n hynod o ffodus i gael cymar a oedd yn deall ac yn gwerthfawrogi hyn yn drylwyr, ac wedi i'r ddau briodi ym 1936, sefydlasant ym Modfari, Dyffryn Clwyd. Bu Emrys yn gweinidogaethu yno am naw mlynedd ond ni pheidiodd â'i ymlyniad wrth bregethu a gwasanaethu'r cylchoedd crefyddol y bu ef a Glenys yn byw ynddynt ar hyd ei oes.

Fe'i gwreiddiwyd yn ddwfn yn etifeddiaeth grefyddol Sir Gaerfyrddin. Tra yn Nyffryn Clwyd cafodd gyfle hefyd i ymarfer ei ddawn fel athro cerdd a bu'n dysgu to ar ol to o ddigyblion dawnus yn Ysgolion Gramadeg Dinbych, a Llanelwy. Ymhyfrydai mewn cerddoriaeth, yn arbennig y wedd leisiol arni, a hyn a'i harweiniodd ymhen amser i gyhoeddi "Gwŷr Wrth Gerdd" a "D.Vaughan Thomas". Ym Modfari, yn ogystal, mynegodd ei ddiddordeb byw yn y ddrama Gymraeg a sefydlodd yno un o gwmniau drama mwyaf llwyddiannus y cyfnod.

Yn genedlaethol daeth i amlygrwydd ar ddau wastad: ei gyfraniadau amrywiol fel darlledwr, yn arbennig trwy gyfrwng radio; a'i waith yn hybu cerddoriaeth werin, yn ddawnsio a chanu. Yn ei dro bu'n Drysorydd a Chadeirydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru ac yn Drysorydd, Ysgrifennydd a Llywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Ef a arweiniodd mewn sefydlu yr Ŵyl Werin flynyddol a drefnir ar y cyd gan y ddwy Gymdeithas ac, yn arbennig iawn ef oedd yn un o'r rhai a osododd sylfeini Gwrs Penwythnos blynyddol y Gymdeithas Alawon Werin. Pe na bai ond ar gyfrif hyn yn unig byddai iddo le amlwg ym mysg cymwynaswyr ein diwylliant cyfoes.

Ond mae llawer mwy i'w ddweud. Bu ei gyfraniad fel perfformiwr radio yn hynod o amlochrog. Canai ganeuon ysgafn gyda'r goreuon o'i gyfoeswyr; cyfansoddai rai yn ogystal. Roedd yn actor graenus mewn drama, rhaglenni nodwedd a dogfen, a gallai gyflwyno rhaglen mewn dull agosatoch ryfeddol. Hyn, yn arbennig, a nodweddai ei grefft fel canwr cân ysgafn a chân werin; rhyw sisial ganu y byddai ar un ystyr a gallai anwylo meic fel pe bai hwnnw'n hen gyfaill iddo. Ni fyddai byth wedi gwamalu mewn stiwdio: bob amser â'i feddwl ar ei waith tra parhâi ymarfer a darllediad.

Daeth i gysylltiad â'r Gymdeithas Alawon Gwerin tra'n pregethu un tro yng Nghaerwys. Cwrddodd â'r Fonesig Herbert Lewis yno, un o gymwynaswyr pennaf y Gymdeithas, ac yr oedd hi wedi digwydd ei glywed yn canu gyda Hogiau'r Gogledd ar un o'r rhaglenni radio. Barnai ei fod yn afradu ei ddawn wrth ganu hen ganeuon "gwirion" felly a phwysodd arno i ganu caneuon gwerin. Bu'n eu canu am flynyddoedd cyn hyn, wrth gwrs: er enghraifft, ennillodd ar ganu "Titrwm tatrwm" mewn Eisteddfod Ryng-Golegol ym 1930.

Ond caneuon digrif, tynnu coes a dychanu oedd caneuon Hogiau'r Gogledd ac nid oedd hyn yn apelio rhyw lawer at wreigdda Plas Penucha. Mynodd ei fod yn cysylltu â J.Lloyd Williams, a oedd yn byw ar y pryd gyda'i fab a'i ferch yng nghyfraith yn Rhuthun. Bu'r cyfarwyddyd hwnnw yn frwythlon iawn i ganu gwerin Cymru. Arweiniodd Emrys ymhen y rhawg i gasglu caneuon gwerin, i'w cyhoeddi mewn rhan, i ddarlithio arnynt, i feirniadu eu canu mewn eisteddfodau niferus ond, uwchlaw popeth, i'w canu ymhob congl o Gymru. Fel canwr arnynt yr oedd yn unigryw. Fe'u coleddodd ac fe'u carodd. Dyna pam yr oedd bob amser yn argyhoeddi gwrandawr.

Dy hoffter oedd arferion - y frodir -
Hyfrydwch dy galon;
Oenaist ei cheinciau ceinion
A charu'n wych werin hon.

Cafodd gystudd caled a hir. Cafodd ymgeledd diguro gan Glenys ac Ann a Roger ac yn ei flynyddoedd olaf cafodd fendith parabl a sgwrs wyrion bach. Cydymdeimlwn a nhw a waelod calon.

Diolch i John Gwynfor Jones, golygydd Y Gadwyn, cylchgrawn misol eglwys Heol y Crwys, am ganiatad i gyhoeddi'r erthygl uchod.

# LLITHyrau

Bryntirion
Penybont-Ar-Ogwr

Annwyl Dinesydd,

Fel darllenydd cyson o'r Dinesydd cefais fy synnu a'm siomi gan y cyfeiriad anfrawdol at Y Cylchgrawn Efengylaidd yng ngholofn golygyddol rhifyn Mawrth. Fe'i disgrifir yno fel cylchgrawn "sy'n ddim amgen na chylchgrawn mewnol i sect grefyddol, nad yw'n goddef unrhyw farn heblaw ei ddogma ei hun" - disgrifiad a'm hatgoffodd o'r math o sylwadau ffwrdd-â-hi a anelir mor aml yn erbyn caredigion ein hiaith a'n diwylliant. Roeddwn yn disgwyl yn well gan Y Dinesydd.

Mae'n amlwg nad oes gan y Bwrdd Golygyddol fawr o gariad tuag at y ffydd efengylaidd! Pe baent yn byw yng Nghaerdydd y gorffennol, prin y byddent i'w gweld yn Eglwys Fair yng nghyfnod curadiaeth y Piwritan enwog Walter Cradoc - hen efengylwr annioddefgar. Ni fyddent hwy ymhlith y sawl a gyrchai i Blas y Fotffordd ar Fynnydd Caerffili i sasiynau cynnar y Methodistiaid - hen efengylwyr annioddefgar. Ni fyddent wedi tywyllu drws y Tabernacl yn yr Ais yn ystod gweinidogaeth Christmas Evans - hen efengylwr annioddefgar. Ni fyddent wedi troi i mewn i 3 East Terrace am sgwrs a'r annibynnwr ifanc, Ieuan Gwynedd - hen efengylwr annioddefgar. Ac mae'n siwr, os ydynt yn mynychu capel, eu bod yn tewi pan genir emynau Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths - hen efengylwyr cas ac annioddefgar.

Y gwir amdani yw, wrth gwrs, nad cylchgrawn mewnol sect neu enwad mo'r Cylchgrawn Efengylidd, ond cyhoeddiad sy'n sefyll yn driw i ffydd efengylaidd hanesyddol yr Eglwys Gristnogol, i'r efengyl Gristnogol yn ei phurdeb, yr hen newyddion da bytholwyrdd hwnnw y'i gwelir mor amlwg ar dudalennau'r Beibl gan y neb sydd â llygaid i weld. Yn wir heb y ffydd efengylaidd ni fyddai'r un capel Cymraeg yng Nghaerdydd heddiw, gan mai grwpiau efengylaidd oedd holl enwadau Anghydffurfiol Cymru yn eu gwraidd. A heb Ddiwygiad Efengylaidd y ddeunawfed ganrif mae'n gwestiwn mawr a fyddai'r Gymraeg ei hun - na'r Dinesydd - yn bod o gwbl erbyn heddiw.

Ond i ddychwelyd at groeso brwd Y Dinesydd i'r penderfyniad i ddileu grant y Cylchgrawn Efengylaidd. Y rheswm a roddir dros hynny gan y Cyngor Llyfrau yw - nid diwyg, na safon y cynnwys, na chylchrediad, na dim o'r fath - ond y ffaith eu bod am noddi'r cylchgrawn cydenwadol newydd Cristion yn unig, sef cylchgrawn a ddaeth i fod llynedd trwy gyfuno'r hen gylchgronau enwadol Cymraeg. Mae'n wir nad yw pwrs y Cyngor Llyfrau yn ddiwaelod, ond y mae mater pwysig o egwyddor yn codi yn y cyd-destun hwn. Cydnabyddir yn gyffredinol fod yna ddau lais amlwg yn y byd crefyddol Cymraeg heddiw, sef y llais efengylaidd a'r un eciwmenaidd. Wrth roi grant i'r cylchgrawn cydenwadol newydd - cylchgrawn sy'n un eciwmenaidd yn ei hanfod wrth gwrs - a dileu'r grant i'r Cylchgrawn Efengylaidd, gellir dadlau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynnal un safbwynt crefyddol rhagor nag un arall.

Gwir mai'r llais lleiafrifol yw'r llais efengylaidd ar hyn o bryd yn y Gymru Gymraeg - ac fe adlewyrchid hynny ym maint cymharol y grant i'r ddau gylchgrawn y llynedd - ond nid yw hynny ynddo'i hunan yn rheswm dros beidio â rhoi grant. ac y mae'n lleiafrif eitha sylweddol. A barnu o'r ffigurau sydd gennyf, y mae tua un o bob pump sy'n dymuno prynu cylchgrawn crefyddol Cymraeg yn prynu'r un efengylaidd yn hytrach na'r un eciwmenaidd - canran ddigon tebyg i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Yn wyneb hyn i gyd, byddwn wedi disgwyl cydymdeimlad Bwrdd Golygyddol papur lleiafrifol megis Y Dinesydd, ac nid eu gwawd. Mae'n amlwg i'w rhagfarnau eu dallu i ystyriaethau pwysig megis tegwch i leiafrifoedd, rhyddid cytbwys i fynegi barn, ac yn y blaen. I droi at gymhariaeth mewn maes sensetif arall, sef gwleidyddiaeth, tybed beth fuasai adwaith Y Dinesydd pe bai yna ddau gylchgrawn gwleidyddol ar gael, un o eiddo Plaid Cymru, dyweder, a'r llall o eiddo'r Cynghrair, ac i'r Cyngor llyfrau atal y grant i gylchgrawn Plaid Cymru?

Yr eiddoch yn gywir,
E.Wyn James
Swyddog Cyhoeddiadau
Mudiad Efengylaidd Cymru

---

Annwyl Dinesydd,

Carem ymateb i'ch sylwadau golygyddol yn rhifyn Mawrth, a nodi'n arbennig eich defnydd o'r gair "efengylaidd". Credwn fod yr hyn a ddywedwch yn anghyfrifol.

Mae tri pheth yn hawlio sylw. Yn gyntaf, dywedwch fod y "Mudiad" yn "sect grefyddol", ac felly mae'n debyg fod pob grwp ac eglwys efengylaidd yn sectyddol, yn union fel y Tystion Jehofa. Rydym ni fel eglwys yn perthyn i'r traddodiad efengylaidd Cymraeg. Ein tadau yn y ffydd yw John Penry, Walter Cradoc (An.), John Myles, Vavasor Powell (Bed.), ac Howell Harries a Daniel Rowlant (M.C.). Nid oes eisiau i ni ffurfio sect a ninnau'n perthyn i'r fath gwmni ardderchog.

Yn ail, dywedir ein b~i yn anoddefgar. Hyd y mae ynom carem fod mewn cymod â phawb, a mynegi'r cariad hwnnw oedd yng nghalon yr Arglwydd Iesu Grist. Mae methu yn hyn o beth yn fetrhiant difrifol. Ym mater gwirionedd yr Efengyl, yr ydym yn anoddefgar yn yr ystyr yr oedd ein gwaredwr yn anoddefgar pan ddywedodd, "Myfi yw y ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd, nid oes neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi".

Yn drydydd, dywedir ein bod yn "fewnol" (mewnblyg mae'n debyg). Mae'r ffydd efengylaidd yn ei hanfod yn genhadol. Ein bwriad yw ennill eraill i Grist, yng Nghymru ac yn holl wledydd y byd. Dyma'r ffydd a yrrodd Cradoc i gerdded Cymru, a John Davies i hwylio'r môr i Dahiti. Dyma'r ffydd sydd am achub dynion o golledigaeth dragwyddol, a dyma'r ffydd sy'n cynnal credinwyr yng ngharcharau'r gwledydd comiwnyddol. Mae'r pwyslais cenhadol ynghlwm wrth y pwyslais dyngarol, ac enghraifft dda o hyn yw gwaith "Tear Fund".

Diolch am gyfle i ymateb fel hyn. Carem hefyd wahodd Bwrdd Golygyddol y Dinesydd:

1. I oedfa yn Nhŷ'r Cymru.
2. I drafodaeth breifat ar y Ffydd Gristnogol.
3. I drafodaeth gyhoeddus mewn man o ddewis y bwrdd.

Yn gywir, ar ran yr Eglwys Efengylaidd sy'n cyfarfod yn Nhy'r Cymry,
Noel Gibbard.

---


UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG
COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD

CYNHADLEDD UNDYDD
Sadwrn Ebrill 27
10.00 - 4.30
Adeilad y Dynoliaethau
Humanities Building
Colum Road, Caerdydd

DYGYMOD Â DWY IAITH

Tâl Cynhadledd: £2.00
(yn cynnwys coffi a bisgedi)
Myfyrwyr, y di-waith,
disgyblion ysgol: £1.00

Sieciau'n daladwy i:
Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg

Ymholiadau pellach i:
Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg
18 Ffordd y Gogledd
Caerdydd, CF1 3DY.
Ffôn: 44211, est. 2573

# Colofn Shân Emlyn

CYN I'M CHWAER yng nghyfraith ddysgu'r Gymraeg, a hynny rhyfeddol o lwydiannus, arferai fy mrawd gyfieithu iddi lythyrau wythnosol fy nhad - a gwneud hynny'n llythrennol. Cofiaf fel y byddai Jackie'n edrych yn syn efo brawddeg agoriadol pob llythyr gan fy nhad: "No news of a pound today, plenty of work we'd go anywhere special"! Ia, fel hyn yr agorai llythyrau Nhad "Dim newyddion o bwys heddiw, digon o waith yr awn i rywle arbennig".

Ydy, mae cyfieithad fel yna yn ddigri a chwerthinllyd o gamarweiniol. Eto, yn gynyddol clywaf gyfiethithiadau i'r gwrthwyneb o'r Saesneg i'r Gymraeg ar y radio a'r teledu, ymadroddion sy'n merwino'r glust. Dyma fynd ati i lunio sgwrs ddychmygol yn cynnwys rhai ohonynt.

"Beth yw'r amser Sion?"

"Saith o'r gloch - wyt ti'n gwybod bod y disgo'n cymryd lle heno?"

"Mae'n ddigon buan, rhaid imi fynd i olchi fy hun i fyny'r grisiau cyn mynd."

"Fel canlyniad, mi fyddwn yn hwyr."

"Beth yw'r brys, mi fydd 'na ddisgo'r un amser nos fory."

"O ble mae'r grwp yn dod?"

"Wn i ddim, dwi byth wedi clywed am nhw."

"Beth wedest ti oedd yr amser ar gloc Taid?"

Wel! "Beth yw'r amser?" Be' sy' wedi digwydd i "Faint o'r gloch ydy hi?"
"Cymryd lle" - cymryd lle beth? Mae cyngerdd neu ddisgo yn cael "ei gynnal", neu yn fy mhlentyndod i roedd pobol yn cadw "cyngerdd", pam lai felly nad allwn ni "gadw disgo"?
"I olchi fy hun i fyny'r grisiau". Cyfiethiad llwyr o "to wash myself upstairs". "Mynd i molchi i'r llofft" fydda i, neu hyd yn oed idiom gyffredin fel "Dwy'n mynd i'r llofft i hwylio".
Y gwaethaf ohonynt i gyd yw "O ble mae'r grwp yn dod o?" Does dim angen yr "o" o gwbl.
"Dwy byth wedi clywed..." Mae 'na wahaniaeth rhwng "byth" ac "erioed". Er enghraifft, "Dwi erioed wedi clywed am y grwp, felly af i byth i'w gweld".
"Yr un amser" - i mi yr un pryd sy'n dod yn naturiol. "Cloc Taid" - ar lafar gwlad nid grandfather clock sydd ar ein haelwydydd ond cloc mawr.

Petawn i yn rhoi siwgr yn fy nghoffi, nid siwgr brown fyddai gen i ond siwgr coch. Ar ôl y baned nid hongian dillad ar y lein y byddaf ond "ta'nnu'r dillad". Wrth baratoi cinio, nid gosod y bwrdd a wnaf ond "hwylio'r bwrdd", nid "straenio'r" tatws ond i "gloewi". Os byddwn yn cael pwdin nid "saws gwyn" fydd yn cael ei dywallt arno ond "menyn melys".

Rhyw feddyliau fel 'na ddaeth imi'r mis yma. Digwyddodd Mari ddarllen hwn - a'i hymateb - Pa "ymateb" ac nid "adwaith" oedd dweud. "Pwy da chi'n feddwl i chi Mam - Bedwyr Lewis Jones Y Dinesydd?"!

# SAWL FFORDD ?

YN NINAS BRWSEL, dinas ddwyieithog, mae'r arwyddion sy'n dangos enwau'r strydoedd i gyd yn ddwyieithog, ac mae natur y ddwy iaith yno, sef Ffrangeg a Fflandryseg, yn galluogi hyn yn hawdd. Os cymerwn ni:

"rue LINCOLN straat".

Mae'r Belgiaid Ffrangeg yn darllen y ddau air cyntaf, sef "rue LINCOLN", ac mae'r Belgiaid Fflandryseg yn darllen y ddau olaf, sef "LINCOLN straat". A dylai rhywbeth tebyg fod yn bosibl yng Nghaerdydd (a thrwy Gymru gyfan), e.e.

"heol ALBANY road".

Ond pan ddaw hi'n fater o gyfieithu'r termau Saesneg "road, street, way, place, avenue" etc, dym lle mae'r problemau'n dechrau. Ddylen ni ddim cyfieithu'r termau Saesneg yn llythrennol ac yn ddall pob tro. Dylem gyfieithu'r ystyr y term, ac yng nghyd-destun "heol, ffordd, stryd" ac ati dylen ni ddysgu gwers o'r iaith Ffrangeg.

Yn Ffrangeg mae dau brif derm am strydoedd/ffyrdd, sef "route"(ffordd) a "rue"(stryd). Ac mae gwahaniaeth rhesymegol rhyngddynt. Mae "route" yn cysylltu dwy dref, pentref, dinas a.y.b. Er enghraifft, os ydych chi yn Calais neu yn Chartres ar y "route de Paris", rydych chi ar y ffordd sy'n arwain at Baris. Y term arall yw "rue", sef "stryd", lle mai tai, siopau, tafarnau a.y.b. Dyw "rue de paris" ddim yn arwain i Baris o gwbl. Fel "rue Wilson" a "rue St Michel" mae tai yno ac mae un stryd yn aberu yn y stryd nesaf.

Mewn cymhariaeth mae'r iaith Saesneg yn afler iawn yn ei diffiniadau. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae "Newport Road" yn arwain at Gasnewydd ac mae "Caerphilly Road" yn arwain at Gaerffili. Digon teg. Ond beth am "Conway Road", "Marlborough Road" a "Partridge Road"? Does dim un o'r rhain yn mynd i'r lleoedd y sonir amdanynt yn yr enw. "Street" ddylen nhw fod i gyd. Mae cymhlethdodau pellach gyda chyfieithu "avenue, place, way" sy hefyd mewn gwirionedd yn golygu "street", ond mewn ffordd snobyddllyd. Dyw'r Gymraeg ddim mor destlus chwaith. Mae problem gydag ystyr "heol". I rai mae'n golygu "stryd"(rue). I eraill, yn enwedig yn y de, mae'n golygu "ffordd"(route).

Canlyniad hyn oll yw fod 'na gryn dipyn o anghysondeb rhwng yr enwau cymraeg rydym yn arfer yng Nghaerdydd. Does gan neb yr awdurdod i ddweud sut i gyfieithu'r elfen "street, road, place" ac ati i'r Gymraeg. Mae Clwb Ifor Bach yn "Heol Womanby", tra drws nesaf mae nhw yn "stryd Womanby". Fy newis personol i yw "heol=street"(rue) a "ffordd=road"(route). Ar ol hyn, mae'r ffurfiau canlynol yn gywir: "Heol Siarl - Charles Street"; "Heol Fawr - High Street"; "Ffordd Casnewydd - Newport Road"; "Ffordd Caerffili - Caephilly Road"; "Heol Conwy - Conway Road""; Heol Richmond - Richmond Road". Mae "Heol yr Eglwys Gadeiriol" yn anghywir. Ffordd yw hi sy'n arwain at yr Eglwys Gadeiriol, nid stryd a'r Gadeirlan ynddi. Felly "Ffordd yr Eglwys Gadeiriol" ddylai hi fod. Mae perygl hefyd mewn defnyddio "heol" ar gyfer "place", e.e. "Park Place - Heol y Parc". Sut felly mae gwahaniaethu rhwng "Edward St." a "Edward Place"? Efallai gallen ni ddefnyddio "stryd" yma i gyflieithu "place"? Neu efallai fod gan rywun syniad(au) gwell?

Nic ap Glyn.

O.N. Ers i mi ysgrifennu'r uchod cwpwl o ddyddie'n ol, y mae diffiniad posibl arall wedi dod i'm meddwl; un sy'n annibynnol ar y Saesneg ac ar y Ffrangeg.
1. Mae ystyr "ffordd" yn dal yr un peth, sef "route/prif heol" sy'n arwain i rywle pendant, e.e. "Ffordd y Bontfaen".
2. Mae "stryd" yn golygu stryd breswyl, e.e. "Stryd Angus".
3. Mae "heol" rhywle yn y canol, sef prif stryd a ddefnyddir fel "ffordd", e.e. "Heol Plwca -0 City Road". lle mae angen gwahaniaethu rhwng "street" a "place", "stryd=street" a "heol= place".

# Colofn y Dysgwyr

Y DAITH FAWR DROS HEDDWCH

YN YSTOD MIS MAI fe fydd deugain o fenywod yn dod i Gymru ar daith heddwch drwy Ewrop. Bydd pedwar bws gwyn yn gadael Sweden ac yn ymweld a rhannau gwahanol o Ewrop. Mae'r 160 o fenywod yn dod o bob rhan o Ewrop, gyda phedair arall o'r cyfandiroedd eraill. Fe fydd y daith yn para am bythefnos a hanner.

Mae'r menywod yn gobeithio cyfarfod a'r Prif Weinidog, neu'r Gweinidog dros Faterion Tramor ym mhob gwlad, ac os na fyddan nhw'n fodlon gwrando neu ateb eu cwestiynau mae'r menywod yn bwriadu sefyll yn ddistaw mewn cylch o gwmpas adeiladau'r llywodraeth.

Fe fydd y deugain o fenywod a ddaw i Gymru yn teithio trwy'r Gorllewin a'r De o Abergwaun, trwy Abertawe i Gaerdydd. Yn y brifddinas fe fyddan nhw'n mynd i gyfarfod croeso, ac wedyn fe fyddan nhw'n aros gyda theuluoedd lleol, cyn mynd ymlaen ar eu taith.

Alison Jackson
Llanishen.

Albanes o Glasgow yw Alison Jackson, ac mae hi'n weithgar iawn gydag CND yn Ne Morgannwg. Mae ei phlant yn mynd i ysgolion Cymraeg, a dim ond yr Hydref diwethaf y dechreuodd hi ddysgu Cymraeg mewn dosbaryh nos yn y ddinas.

---

DYSGWYR TŶ'R CYMRY

ELENI DATHLWYD Gŵyl Ddewi gan ddysgwyr Tŷ'r Cymry trwy gynnal Noson Caws a Gwin yn Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina ar Fawrth 9. Roedd y fenter, ar gyfer gweithgareddau Cymdeithas Dysgwyr De Morgannwg yn llwyddiannus dros ben.

Cawsom ein diddori gan ein gwesteion, sef:

Phil a Ruth Edwards (ar gan i gyfeiliad gitar a ukelele)
Sian Thomas (telynores)
Ivor Arnold (tenor)

Paratowyd gwledd ar ein cyfer gan ferched Tŷ'r Cymry, ac wrth y bar rhoddodd Paul Jeffries wasanaeth proffesiynol.

Roedd yn noson o luniaeth a llawenydd o dan arweiniad Gwilym Roberts a fydd yn galw ar Ty'r Cymry i drefnu rhywbeth tebyg eto mae'n siwr!

Diolch i bawb a gyfranodd i nosor gofiadwy.

Malcolm Bennett.

O.N. Swyddogion y gymdeithas ar hyn o bryd yw Gwilym Roberts, Cadeirydd; Elen Rhys, Ysgrifennydd, a Tony Couch, Trysorydd.

PWYLLGOR DYSGWYR STEDDFOD YR URDD
Mewn ymgais i godi arian at gronfa'r Eisteddfod, cynhelir Sadwrn Siarad i ddysgwyr Cymraeg ar ddydd Sadwrn, 11 Mai, o 10.00 tan 4.00. Dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynfedw (Caerdydd 693302) am ragor o fanylion.

---

CERDDED YMLAEN!

CYNHELIR CWRS cerdded i ddysgwyr Cymraeg dros y penwythnos Mai 3 hyd at amser cinio ar Fai 6 ym Mhlas Tanybwlch, Maentwrog. Nod y cwrs ydy ehangu geirfa ac ystwytho'r Gymreg ynghyd â mwynahu crwydro Eryri. Mae disgwyl fod aewlodau'r cwrs yn eitha rhugl yn yr iaith ac yn iach o gorff!

Tua £50 yw cost y penwythnos ac mae hyn yn cynnwys pris aros a thri phryd o fwyd y dydd. Cydarweinir y cwrs gan Merfyn Williams , Is-bennaeth y Plas, a Gwilym Roberts. Am ragor o fanylion ysgrifennwch at Plas Tanybwlch, Maentwrog, Gwynedd.

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

# PYTIAU

BWCS! Mewn llythyr at Gell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, dywed Ieuan Edwards, llyfreggydd De Morgannwg, "Rwy'n benderfynol y bydd y llyfrgell newydd yn hollol ddwyieithog yn ei arwyddion a'i dogfennau. Longyfarchiadau iddo yntau, a diolch i'r Gymdeithas.

---

CYLCHGRONNAU I'R CLAF: Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd aelodau Cymdeithas yr Iaith yng Nghaerdydd yn dosbarthu cylchgronnau Cymraeg yn ysbytai, ystafelloedd aros deintyddion a meddygon y ddinas. Os allwch fod o gymorth, ffoniwch 40834.

MERCHED Y WAWR

WYTHNOS YN ddiweddarach na phawb arall y bu i Ferched y Wawr ddathlu Gŵyl Ddewi eleni. Ar nos Lun, Mawrth 11, croesawyd canghennau Penarth a'r Clawdd Goch atom i Minny Street.

Gogyfer â'r achlysur ymgynullodd Gôr Tannau Taf a rhoi inni noson o adloniant traddodiadol. Tywyswyd ni'n ddeheuig a diddan o eitem i eitem gan Mrs.Marian Evans, a chafwyd amrywiol eitemau gan y côr cyflawn dan arweiniad Mrs.Carys Williams, hefyd unawdau, triawdau, deuawdau ac adroddiadau. A'r cyfeilio trwy'r cyfan dan fysedd cyfarwydd Mrs.R.Dilys Jones.

Llywydd y gangen, Mrs.Myfanwy Garmon roes iddynt deyrnged frwd o ddiolch gan estyn croeso hefyd i Mrs.Mari Griffith Jones, llywydd y rhanbarth.

---

NEWYDDION LLANHARI:

LLONGYFARCHAIDAU calonog i'r canlynol am ennill ysgoloriaethau mynediad i Goleg y Brifysgol Aberytwyth o Ysgol Gyfun Llanhari:

Sharada Menon - Ysgoloriaeth Evan Morgan yn y Gymraeg a Saesneg i astudii ar gyfer gradd yn y Gymraeg.

Dafydd Morse - ysgoloriaeth Evan Morgan yn y Gymraeg a Hanes i astudio'r Gymraeg a Hanes Cymru.

Menna Rees - Ysgoloriaeth Price Davies yn Hanes a Saesneg i astudio'r Gyfraith.

Llongyfarchiadau hefyd i Bethan Harris, a lwyddodd i ennill mynediad i Goleg Wadham, Rhydychen i astudio'r Gyfraith.

---



AR BEN Y DOMEN: I Euros Rhys ar ei fuddugoliaeth yng nghystadleuaeth Can i Gymru eleni. Bydd Bwchadanas yn perfformio'i gan "Ceiliog y Gwynt" yn y gystadleuaeth Pan-Geltaidd y flwyddyn nesaf. Mae Euros yn athro yn Ysgol Gyfun Llanhari ac mae'n un o aelodau'r grwp Beca.

# 'STEDDFOD YR URDD

MAE EISTEDDFOD Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch o fewn £15,000 o gyrraedd ei nod ariannol.

Mewn cynhadledd i'r wasg ar Fawrth 11, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Malcolm Thomas, ei fod yn hyderus y gellid casglu'r swm yn weddol ddi-ffwdan rhwng nawr a'r Eisteddfod.

Gosodwyd nod o £100,000 i'w gasglu'n lleol - bron hanner y gost o £210,000 o lwyfannu'r Eisteddfod eleni. Eisoes casglwyd tua £85,000 trwy wahanol ddulliau.

Gwnaethpwyd cyfraniadau sylweddol gan ysgolion y Brifddinas, gan dros ugain o "gymunedau" a ffurfiwyd mewn gwahanol ardaloedd o Gaerdydd, gan bwyllgorau'r Eisteddfod ei hunan, a chan fudiadau a grwpiau eraill.

Bu darparu brwd am yr Ŵyl am bedair mlynedd. Dywedodd Mr.Thomas, "Mae'n flwyddyn bwysig iawn i Gaerdydd. Rydym yn hyderus y bydd hi'n eisteddfod lwyddiannus iawn."

Lleolir pafiliwn yr eisteddfod yn ogystal â'r arddangosfeydd Celf a Chrefft a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Sophia. Lleolir y stondinau masnach a'r arddangosfeydd eraill ar y meysydd oddi amgylch y ganolfan.

Cynhelir cystadleuthau chwaraeon yr Eisteddfod yn y ganolfan a threfnir hyfforddiant mewn amrywiaeth o gampau yn ystod yr wythnos gan ddefnyddio adnoddau'r ganolfan.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal yr Eisteddfod yn hen bafiliwn Gerddi Sophia, ond pan ddinistriwyd hwnnw yn eira mawr Ionawr 1982, bu'n rhaid ail-ystyried lleoliad yr ŵyl.


Disgwylir y bydd yr eisteddfod yn denu dros 60,000 o gystadleuwyr ac ymwelwyr. Mae'r gwaith o sicrhau llety i dros 5,000 o blant yn parhau. Mor belled, daethpwyd o hyd i 4,000 o welyau ac mae'r Pwyllgor Llety a Chroeso yn hyderus y medrant sicrhau'r gweddill erbyn yr Eisteddfod.

Cynhelir cyngherddau'r ŵyl bob nos yn Neuadd Dewi Sant, gan gynnwys Cyngerdd Ieuenctid De Morgannwg nos Fawrth, Mai 28, Pasiant Byrti Bws, nos Fercher a nos Iau, Cyngerdd Ryngwladol nos Wener, a pherfformiad o'r "Meseia" gan Gôr yr Eisteddfod a cherddorfa Ysgol Syfun Glantaf nos Sadwrn.

Perfformir Opera Roc "Merch y Blodau", o waith Emyr Edwards a Dulais Rhys yn Theatr y Sherman o nos Fercher tan nos Wener. Fe'i perfformir gan ddisgyblion ysgolion Glantaf, Cwm Rhymni, Llanharri a Rhydfelen.

Cynhelir profion terfynol y cystadlaethau drama un act yn Arena Theatr y Sherman hefyd o nos Fercher tan nos Wener.

Lleolir "Dinasbedain" - pabell adloniant yr wyl ar faes yr Eisteddfod ac fe fydd gweithgareddau'r babell yn dechrau bob dydd am 12.00 o'r gloch. Ymhlith yr atyniadau fydd cystadleuaeth can roc, cystadleuaeth digrifwr y flwyddyn a chwis aelwydydd.



CYFRANIAD YSGOL BRO EIRWG I EISTEDDFOD YR URDD

YCHYDIG AMSER YN ÔL, yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Rhieni Ysgol Bro Eirwg, buom yn trafod beth fyddai ein cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd, ac ar ôl llawer o siarad daeth y syniad o gael noson "Cabaret". Dyma fynd ati felly i drefnu'r noson, y dyddiad, nos Wener 22 Mawrth, yn Neuadd Ysgol San Teilo.

Cawsom noson yn llawn hwyl a sbri gyda phawb yn ymlacio ar ddiwedd wythnos, ac yn cael mwynhad pur yng nghwmni'r Triban yn canu rhai o'r hen ffefrynnau a'u gwnaethant yn boblogaidd sawl blwyddyn yn ôl bellach.

Wedyn dyma Dewi "Pws" Morris yn cymryd yr awenau i drefnu'r arwerthiant o'r eitemau diddorol iawn a ddaeth i law oddiwrth rhai pobl blaenllaw a phoblogaidd yng Nghymru. Roedd gweld Dewi yn llwyddo i gael cymaint o arian am yr eitemau yma yn rhyfeddod. Trefnwyd swper hefyd ac roedd digon ohono i'n bodloni ni gyd.

Uchafbwynt y noson oedd ymddangosiad Caryl Parry Jones a'r Band. Dyma artist yn wir ac roedd hi'n bleser o'r mwyaf ei chlywed a'i gweld ar y llwyfan - cawsom ni gyd ein swyno gan ei chanu. Mae'n siwr ein bod i gyd yn sylweddoli pa mor ffodus oeddem i gael gwasanaeth Caryl a'r Band, Y Triban, a Dewi Pws i'n noson Cabaret.

Ein hamcan fel pwyllgor oedd codi swm sylweddol i'r Eisteddfod, fel cyfraniad Ysgol Bro Eirwg. Ein nod oedd tua £500, ac mae'n dda gennym ddweud ein bod wedi gwneud cryn dipyn yn well na hynny mewn ffordd sydd wedi cynnwys cymaint o bobl, yn rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol yn cael amser da.

Margaret Davies
& Rhiannon Murphy.

# BWTH RUTH

NEWYDD DDOD ADRE o'r gwaith - bath fyddai'n braf cyn cychwyn allan eto am gartre un o'r genod lle bydd yna rywun yn gwerthu colur. Dyna fynd ati i redeg y dŵr - hwnnw'n poeri o'r tap a'i liw - brown! Trio tapiau'r gegin - rheiny yr un fath ag yn dripian gan fod angen "washers"! Dwr y bath yn chwilboeth - llosgi fy llaw! Mynd i'r cwpwrdd crasu i droi gwres y dŵr i lawr - a'r swits yn dod i ffwrdd yn fy llaw!

Reit - yr unig beth i'w wneud - cysylltu efo Mac - un o'r pedwar o ddynion pwysig yn fy mywyd i (y lleill ydi fy meddyg, fy mwtsiar a Phil, dyn y garej). Fedr Mac wneud dim oll heno - ond mi fydda'i yn cael gwers coginio hefo Awyr Iach bryd hynny yn Llandybie. Ond dyna lwyddo i drefnu rhywbeth sy'n siwtio Mac a finnau.

Wrth eistedd gyferbyn â'r ffenest fan hyn yn sgwennu hyn o lith blin, dwi'n gweld fod angen paentio ffram y ffenest a'r relings tu allan. Man a man cyfaddef ei bod yn amser sbringclinio.

Be wnai?!? Archebu mwgwd glanhau croen yr wyneb o'r noson coluro a chanslo heddiw'n gyfangwbl yna sleifio i'r ciando (gair Cofis Caernarfon am wely) a deffro bore fory i ddiwrnod newydd arall. O ie, fe fu bron i mi ag anghofio, bore fory'n gynnar y peth cynta wela'i fydd y blagur ar y coed tal y tu allan a'r peth cynta glywa'i fydd côr y wig - diolch i'r drefn am bob tymor, a rheiny yn eu tro.

O.N. Glanhau'r ffenestri fydd un o orchwylion y penwythnos a Western Mail neu Echo tamp lanhauith nhw a dŵr a finag ar y chamois ddaw a sglein. Hwyl!

---

YN EISIAU:

Carafan i'w rhentu ar y Maes Carafannau dros Eisteddfod yr Urdd, addas i gysgu dau oedolyn a 5 plentyn.

Cysylltwch â:
Mrs Mair Spencer
Bryn Ffynon
Clucaenog
Rhuthun
Ffôn: Clawddnewydd 777

HTV CYMRU

Y Gorau yn Gyson i Gymru

# Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

HTV CYMRU ar S4C

Y Gorau yn Gyson i Gymru

# TORTH O FARA

GAN FY MOD wedi cael tocyn tren (dau am bris un) trwy gasglu labeli o'm pacedi powdwr golchi, penderfynais fynd i Lundain am y diwrnod yn ddiweddar. Nid wyf yn mwynhau cerdded o amgylch y siopau mawr yno felly y tro hwn euthum draw i ardal Covent Garden a dilyn taith gerdded bwyd a awgrymwyd yn y Sunday Times ychydig yn ôl.

Gyda map o'r ardal mewn un llaw, yr erthygl o'r papur Sul yn y llaw arall a phar o esgidiau cyfforddus am fy nhraed i ffwrdd a mi. Cychwyn yn Heol Gerrad ar bwys Sgwâr Caerlyr. Mae'r ardal yma'n gartref i lawer o deuluoedd o dras Tseineaidd - roedd addurniadau ar hyd y stryd gan eu bod wedi dathlu eu Blwyddyn Newydd ychydig o ddyddiau cyn i mi fynd yno.

Yn Heol Gerrad mae archfarchnad Loon Fung lle gellir prynu pob math o fwydydd Tseineaidd a thaclau coginio. Roedd y siop yn llawn o bobl lleol yn prynu llysiau, pysgod, cigydd a bwydydd wedi'u paratoi, ar gyfer eu prydiau dyddiol. Ar ol dewis dau neu dri o fwydydd yno i ychwanegu at fy stor ar gyfer coginio rysetiau yn llyfr Ken Hom, ymlaen a mi i siop fach o'r enw Pasta Fino, lle gwerthir pasta ffres gwyrdd, lliw cwrel a lliw traddodiadol. Gellir aros yno i weld pasta yn cael ei baratoi neu i gael pryd o fwyd. Mae dewis i'w gael o wahanol sawsiau i weini gyda'r pasta - prynais i saws oedd yn cynnwys madarch a llysiau bras ac roedd yn flasus dros ben. Ychydig yn ddrud oedd eu cynnyrch, fel y sylweddolais pan ddeuthum o hyd i siop arall yn yr un stryd lle roedd cynnyrch tebyg, ond am bron i hanner y pris!

Tu allan i dafarn y Marquis of Granby yn Shaftesbury Avenue gwelais un o'r stondinau stryd olaf yn Llundain lle gewerthir pysgod cregyn mewn jeli a salad cranc yn barod i'w bwyta. Gyferbyn gallwch ddewis taclau coginio o bob math yn siop William Page; er mai ar gyfer y diwydiant arlwyo y gweryhir y rhan fwyaf o'r taclau hyn mae digon o bethau addas ar gyfer cegin tŷ unrhywun sy'n anturus ac eisiau cael gafael ar offer arbennig na welir mewn siop gyffredin ar y stryd fawr.

Ar y ffordd i Covent Garden gelwais i mewn i le o'r enw Neal's Tara, lle ceir amrym o siopau bach ffasiynol gan gynnwys popty, siop cyflawnfwyd, apothecari, siop llysiau a ffrwythau a siop gwerthu cynhyrchion llaeth. Cefais gwpaned o de yn y pobty (o'r dewis o tua deg o wahanol rai) a tamaid o gacen blasus iawn wedi ei gwneud o tofu. Yn y llaethdy roedd dewis ardderchog o gaws fferm gan gynnwys caws heb gwyrdeb (rennet) ar gyfer llysieuwyr.

Wrth eistedd yn Covent Garden ar ddiwedd fy nhaith gerdded bleserus cychwynais feddwl os oes rhywbeth tebyg gennym ni i gynnig yng Nghaerdydd? Nid oes un ardal yng nghanol y ddinas lle gwelir siopiau diddorol fel hyn mewn un man ond mae gennym siopiau ar wasgar lle gellir cael rhai bwydydd tebyg i'r rhai a welais yn Llundain. Nid hawdd, beth bynnag, yw gwneud taith gerdded i ymweld â'r rhain.

Yng nghanol y ddinas mae siop Wally's yn gwerthu amrywiaeth dda o lysiau bras a sych, perlysiau, cyflawnfwyd, cigoedd wedi'u cyffeithio a bwydydd o'r cyafandir. Ceir pob math o berlysiau, rhesymol iawn eu pris yn Spice Box, yn enwedig ar gyfer bwydydd Indiaidd, a rhai llysiau anarferol.

Yn ardal Riverside ceir archfarchnad Tseineaidd bron cystal â'r un welais yn Llundain. Ceir dewis da o lysiau a ffrwythau ar stondin yn Arcade Rhydychen, ar bwys Tesco.

Ym Mhontcanna gellir prynu caws fferm (dewis cyfyngedig) yn siop Beans & Wholefoods, ac yna yn stryd Fitzroy yn Y Waun Ddyfal mae siop cyflawnfwyd sy'n cynnig dewis ardderchog o fwydydd fel mel, reis, pylsau, ffrwythau sych, burum ffres, glawd, grawnfwydydd a rhai llysiau a ffrwythau wedi'u tyfu'n organig. Hoffaf fynd yno gan nad oed iddo awyrgylch 'ffasiynol' siopau bwyd iach - mae'r bwydydd o safon da a'u prisiau yn rhesymol iawn.

I orffen, gellir cael pasta ffres yn archfarchnadoedd Tesco a Sainsbury - dyma rysait saws madarch a garlleg i chi yhwanegu blas iddo (ar gyfer 4 person).

Cynheswch dau llond llwy fwrdd o olew olewydden mewn sosban ac ychwanegwch 1 tun (800g) o damatos, ychydig o halen, un llond llwy de o siwgr ac un deilen bae. Coginiwh yn araf am 30 munud. Gellir hylifo'r saws os ydych am gael saws llyfn. Ychwanegwch 12 owns o fadarch wedi'u torri ac un clof o arlleg wedi'i falu, halen a phupur du. Mudferwch am 15 - 20 munud, yna ychwanegwch dau llond llwy de o fintys y graig ffres (marjoram). Bon apetit!

# LLONGYFARCH

EM ED: Llongyfarchaidau i Eluned Davies-Scott, Ms.Torth o Fara, ar ennill gradd M.Ed. am ei gwaith ymchwil i ddulliau aml-ddiwylliannol o ddysgu gwyddor tŷ. Edrychwn ymlaen at ddarllen ffrwyth ei llafur maes o law.

---

ENNILL YM MHARIS: Llongyfarchiadau i aelodau tim Rygbi HTV ar eu buddugoliaeth yn erbyn tim o ddarlledwyr Ffrengig. Fel y tim cenedlaethol roedd HTV ar ei hôl hi wedi ychydig funudau, ond wedi cais gan Eryl Phillips a throsiad a thri cic gosb gan Russel Isaac, HTV a orfu 14 - 15.




BYRTI BWS? Ar waetha'r ffaith i Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod yr Urdd benderfynu peidio ag addurno un o fysus y ddinas a chorff hardd Byrti Bws, gan y byddai'n costio gormod, mae'r enwog Byrti wedi ymddangos wedi'r cwbl. Tybed pwy fydd yn talu am y gwaith?

holl lyfrau Cymru ynghanol y dref

Oriel

Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548

Catalogau ar gael

# YN EISIAU

SWYDDOG HYSBYSEBION

Dosberthir Y Dinesydd yn rhad ac am ddim. Dibynwn, felly, yn helaeth ar hysbysebion. A oes un brwd o blith darllenwyr Y Dinesydd a fyddai'n barod i ymgymryd â chasglu hysbysbion, a hynny'n fisol?

Ffonier 751469.

# 'STEDDFOD YSGOL GLANTAF

AR ÔL CYSTADLU brwd a hwyliog yn Neuadd Dewi Sant ar Chwefror 28 Llys Teilo oedd y llys buddugol. Pennaeth y llys yw Mrs.Bethan Roberts a'r capteiniaid yw Sion Lewis a Nia Rees. Llys Dyfrig ddaeth yn ail, Illtud yn drydydd, a Dewi yn olaf.

Llywydd yr Eisteddfod oedd Malcolm Thomas, y Prifathro, a'r beirniaid oedd Chris Powell, Ruth Price ac Alys Williams. Beirniadwyd cystadleuaeth y Gadair gan Emyr Lewis. Trefnwyd y cyfan gan Marian Wynne.

BUDDUGWYR

RHYDDIAITH GYMRAEG
Dosbarth 1: Ceri Evans
Dosbarth 2: Mared Roberts
Dosbarth 3: Geraint Harries
Dosbarth 4 & 5: Owain Rogers
Dyddiadur: Ffion Jenkins
Ysgrif: Rowland Powell
Adolygiad Ffilm: Elin Jones
Pennod 1af Nofel: Elin Evans
Stori Fer: Elen Lowri Jones

BARDDONIAETH GYMRAEG
Dosbarth 1: Andrew Williams
Dosbarth 2 & 3: Rhian Rees
Dosbarth 4,5 & 6: Ffion Jenkins
Haiku: Meinwen Ruddock
Tribannau: Steffan Wiliam
Parodi: Marc Edwards

Hysbyseb: Carol Owen
Casgliad o ddywediadau am y tywydd: Elen Gwyndaf Owen
Ysgrifennu ac Arlunio: Matthew Perkins
Dywediadau am y tywydd (cywaith) Ruth Penning a Mair Atkinson

STORIAU SAESNEG
Dosbarth 1: Rachel Whitfield
Dosbarth 2: Anna Williams
Dosbarth 3: Angharad James
Dosbarth 4: Eleri Coslett
Dosbarth 5: Sarah Lloyd

TRAETHAWD
Dosbarth 4: Sara Edwards
Dosbarth 5 & 6: Sian Thomas

BARDDONIAETH
Dosbarth 1: Rhian Mair Thomas
Dosbarth 2: Meleri Morgan
Dosbarth 3: Esther Whitfield
Dosbarth 4: Carys Jones
Dosbarth 5 & 6: Eleri Morgan

DARLUNIO DARN O FARDDONIAETH:
Dosbarth 1: Mathew Glyn Jones
Dosbarth 2: Catrin Morris
Dosbarth 3: Rhian Kirkpatrick

LLAWYSGRIF (script)
Dosbarth 4: Hannah Hills
Dosbarth 5 & 6: Sara Thomas

MATHAMATEG
Dosbarth 1: Robert Powell
Dosbarth 2: Meleri Morgan
Dosbarth 2 (poster): Nerys Pugh
Dosbarth 3 (poster): Esther Whitfield
Rhaglen ar gyfer cyfrifiadur: Keith Deacon a Jonathan Tippins

FFRANGEG
Dosbarth 1 & 3: Angharad James
Dosbarth 4,5 & 6: Mathew Ginn

HANES
Dosbarth 1 (Cywaith): Sian Williams
Dosbarth 1 (model): Catherine Cooper ac Andrew McCarthy
Dosbarth 2 (cywaith): Elen Owen
Dosbarth 2 (model): Berwyn Griffiths
Dosbarth 3 (cywaith): Geraint Harries
Dosbarth 3 (model): Martin Griffiths
Dosbarth 4 & 5: Eleri Coslett

DAEARYDDIAETH
Dosbarth 1: Huw John Harries
Dosbarth 2: Emma Hamley
Dosbarth 3: Martin Griffiths
Dosbarth 4: Neb yn deilwng
Dosbarth 5 & 6: Sian Thomas

YSGRYTHUR
Dosbarth 1 & 2: Heddwen Tench
Dosbarth 3 & 4: Hannah Hills
Dosbarth 5 & 6: Bethan Elias

COGINO
Dosbarth 1: Meleri Evans
Dosbarth 2: Catrin Davies
Dosbarth 3: Elis Norton

ARLUNIO
Dosbarth 1 & 2: Ingrid Sprake
Dosbarth 3 & 4: Hannah Hills a Menna Daniel
Gwaith 3 Dimensiwn: John Bassett

GWAITH DEFNYDD
Dosbarth 1 & 2: Nia Price
Dosbarth 4 & 5: Joanna Golley

GWINIO
Dosbarth 3: Sara Ogwen
Dosbarth 4 & 5: Mary Esau
Dosbarth 6: Sian Jones

CERDDORIAETH
Dosbarth 1: Sian Wwilliams
Dosbarth 2: Huw Curig Thomas
Dosbarth 3: Sioned Mererid
Dosbarth 4: Owen Saer
Dosbarth 5: Huw Laugharne
Dosbarth 6: Ffion Jenkins

TEIPIO
Dosbarth 4: Nia Walters
Dosbarth 5: Lisia Adams

GWYDDONIAETH
Dosbarth 1: Sara Beynon
Dosbarth 2: Shan Edwards, Ashley Way, Graham Davies
Dosbarth 4: James Lee

PRIF WOBRWYON YR EISTEDDFOD

CYSTADLEUAETH Y GADAIR
1. Ffion Jenkins
2. Eleri Morgan
3. Lowri Jones a Steffan Wiliam

Y TLWS SAESNEG
1. Ffion Jenkins
2. Rowland Howell
3. Steffan Wiliam

Y RHUBAN GLAS OFFERYNNOL DROS 15
1. Ffion Jemkins (Clarinet)
2. Sally Jones (Utgorn)
   Rhiannon Lloyd Jones (Piano)
   Jeremey Williams (Organ)
3. Catrin Jones (Telyn)
   Sion Lewis (Cello)

Y RHUBAN GLAS OFFERYNNOL DAN 15
1. Gareth Carwyn (Cornet)
2. Sian Williams (Clarinet)
   Bethan Whittaker (Telyn)
3. Rebecca Ball (Cello)
   Sioned Mererid (Cello)
4. Guto Thomas (Piano)

YR ARWEINYDD GORAU


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Jeremey Williams | Illtud |
| 2. | Sioned Mererid | Teilo |
| 3. | Rhiannon Lloyd Jones | Dewi |
| 4. | Eiry Thomas | Dyfrig |

TARIAN AM YR YMDRECH ORAU GAN UNIGOLYN:
Sian Thomas — Dyfrig


Y TLWS DDRAMA:
Seiri Rhyddion — Illtud

CYSTADLEUTHAU LLWYFAN
Cyfeilyddion: Owen Saer, Rhiannon Lloyd Jones, Elin Angharad (Telyn) Alun Guy, Judith James.

Deuawd dan 15:
Elena Rees a Catrin Rhys
Unawd bechgyn dros 15:
Jeremey williams
Adrodd dan 15:
Heledd Jones
Unawd Merched dros 15:
Aelwen Michael
Unawd Bechgyn dan 15:
Andrew Williams
Cân Frangeg dan 15:
Michelle et Ceri
Unawd Cerdd Dant dan 15:
Nia Thomas
Deuawd dros 15:
Julie a Sali Jones
Adrodd dros 15:
Dafydd Roberts
Adrodd Saesneg dan 15:
Melanie Corp
Unawd Merched dros 15:
Sioned Mererid
Adrodd Daesneg dros 15:
Sara Thomas
Alaw Werin dan 15:
Andrew Williams



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 51




AR DRAWS:

1. Cai deg ohonynt "llond pen" yng Nhwm Tawe. (6)
5. Ie, garlleg gwyllt a geir ar ochr y ffordd rhwng Pengam a Llancaiach. (8)
9. Amser caled gynt? (3,1,6)
10. Llaid i'r Hwntw. (4)
11. Magl y coed yn ddi-lun ac aneglur. (8)
12. Nid oes adwy yma. (6)
13. Gwaceid y basin o'r canol yn ôl. (4)
15. Ychydig,os dim,o les. (4,4)
18. Camosod stôc fer a wnaeth yr athro wrth nodi enwau'r dosbarth. (8)
19. Yn mynd i lawr yn esgeulus o ddifeind. (4)
21. Y mae'n tywynnu yn sydun. (6)
23. Mi adweithiaf wrth droi te a yf mab. (8)
25. "Diddrwg, ____." Canolig, nid canolog. (4)
26. A yw eu cwsmeriaid yn cael profiad o'r Gynghanedd Draws Fantach? (10)
27. Byddid yn diasbedain. (8)
28. Fe ddaru mi hurio mewn llais go gyffrous. (6)

I LAWR:

2. Pentre yn Llŷn, ond a geir hefyd yn Nyfed, er nad yw'n amlwg. (5)
3. Mae gosod yr ardd yma gen i yn hir-ymarhous. (9)
4. "______, fawrion o wybodaeth," (6)
5. Wrth gyd-fynegi barn gyffrous, a cholli pen-nod, gwelir cyfosodiad sy'n dangos y gwahaniaeth. (15)
6. Gwyrth dall sy'n troi golygon yn lled-agored. (8)
7. Y doethaf yn treiglo i ddangos ei fod yn medru. (5)
8. Troi i lefydd Cen i gael llochesau. (9)
14. Ffroenaist y sawr. (9)
16. Fe geisiodd G.G. ei gwneud yn siapus-luniaidd. (9)
17. Chwimiadur y marchog. (8)
20. Llament i dynnu'r hugan yn rhydd. (6)
22. Ewch ar dro i actio. (5)
24. A ychwanegi di ato o'i newid? (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 50.
AR DRAWS: 1.Llygod; 4.Ymgysegra; 9. Nerth braich; 10.Fy enw; 11.Adran; 12.Aml-ieithydd; 13.Rocedau; 15.Didranc; 18.Cyplysa; 20. Arferid; 21.Mor ddidaro; 23.Larwm; 25.Gwair; 26.Cyffroedig; 27.Armageddon; 28. Crogi.
I LAWR: 1.Llanfair D.C.; 2.Goror; 3.Dibynadwy; 4.Ymaddasu; 5.Gochelyd; 6.Safle; 7.Gwerthfawr; 8.Anwedd; 14.Capernaum; 16.Dyfal Donc; 17.Cadw-mi-gei; 19.Afancod; 20.Anorffen; 21.Mogfa; 22.Iorwg; 24.Radio.




CYSTADLEUAETH RHIF 50
Derbyniwyd unarddeg datrysiad, ond dim ond wyth ohonynt oedd yn hollol gywir; yr oedd mân wallau yn y tri arall. Aeth yr wyth cywir i'r het, a'r enw a dynnwyd allan oedd eiddo D.E., 131, Clodien Avenue, Y Mynydd Bychan, ac o'i dynnu allan gweld nodyn ar ei gefn, "Os byddaf mor ffodus ag ennill, a wnewch chi gyfleu'r wobr i goffrau anghenus Y DINESYDD. Felly, wrth longyfarch D.E. diolchwn iddo hefyd.
Y datryswyr cywir eraill oedd: Iolo Jones, Mandeville Street; Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; A.G.R., Y Barri; B.H., Cyncoed; Julia Lloyd, Glanyllyn; John Hughes, Llanishen; a Gwenllian Gwyn Jones, Ye Eglwys Newydd.

---

RHIF 51
Anfoned y datryswyr eu hymdrechion erbyn Mai 9fed;(enw neu ffugenw ar ymyl y Croesair) at Ap Lewsyn, 13 rannoch Drive, Caerdydd.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




YN EISIAU:

Carafan i'w rhentu ar y Maes Carafannau dros Eisteddfod yr Urdd, addas i gysgu dau oedolyn a 5 plentyn.

Cysylltwch â:
Mrs Mair Spencer
Bryn Ffynon
Clucaenog
Rhuthun
Ffon: Clawddnewydd 777

NOSON YN NGHWMNI

COR IEUENCTID RHUTHUN

CAPEL EBENESER
Nos Sul 5 Mai
8.00 o'r gloch
Mynediad trwy raglen £1.25
Yr elw at Eisteddfod yr Urdd

YN EISIAU: RHAN AMSER
Dynes i edrych ar ôl
plentyn dwy oed
Am wybodaeth pellach
cysyllter â:
CAERDYDD 31224

# CROESO

GENI: Llongyfarchiadau i Hywel ac Anya Gwynfryn ar enedigaeth eu mab, Huw, brawd bach i Owain. Ein dymuniadau da iddynt.

CHWAER: Dymunwn yn dda i Dafydd a Rhian Huws ar ddyfodiad yr aelod diweddara' o'r teulu sef merch fach yn chwaer i Gwenan, Aled ac Elen. Llongyfarchiadau iddyn nhw.

BRAWD: Roedd yn falch gennym glywed am enedigaeth mab i Geraint ac Eleri Lovgreen yng Nghaernarfon. Mae'n siwr bod Gwilym a Mari wrth eu bodd efo'u brawd newydd - heb sôn am eu nain a'u taid, Gwyn a Lisa Erfyl.

HWYRES: Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs.Moelwyn Preece ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, sef merch eu mab Alun a'u merch-yng-nghyfraith Janice. Ganwyd Megan Haf Wyn ar ddydd Gŵyl Dewi yn Brisbane, Awstralia, lle mae Alun a Janice wedi ymgartrefu ers pedair blynedd. Darlithydd yng Ngholeg Technoleg Queensland, ac mae'n cyfuno'r swydd honno a'i waith fel cyfreithiwr. Mae Janice sy'n adnabyddus fel Telynores Dwyfor, yn dysgu'r piano a'r delyn ac yn awr, wrth gwrs, yn gofalu am Megan Haf. Cyn bo hir fe fydd y teulu'n mynd i'r Unol Daleithiau am chwe mis er mwyn i Alun ddilyn cwrs o astudiaeth bellach.


A ydych yn priodi eleni?

Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.


PRIODAS DDA! Llongyfarchiadau i ddau o staff S4C ar eu priodas yn ddiweddar, sef Richard Foxhall a Sandra Williams.

AC ETO! Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Lewis a Rhys Griffiths ar eu priodas. Pob dymuniad da.

SYMUD LAN: Llongyfarchiadau i Cenwyn Edwards, Pennaeth Adran Materion Cyfoes HTV, ar ei benodiad yn bennaeth HTV yng ngogledd Cymru lle y bydd yn olynu Gwyn Erfyl. Pob dymuniad da iddo ef a Luned a'r teulu wrth iddyrt symud i'r Gogledd.

DYRCHAFIAD: Llongyfarchiadau i Arwel Ellis Owen ar ei benodiad yn Bennaeth Rhaglenni'r BBC yng Ngogledd Iwerddon.

GWELLHAD BUAN: Da yw clywed bod Meurwyn Williams wedi dychwelyd adref o Ysbyty'r Brifysgol, lle y bu'n derbyn triniaeth wedi trawiad ar y galon. Pob dymuniad da iddo yntau, Carys a'r teulu.

POB HWYL! Pob dymuniad da i Mrs. Ann Parry, sy'n ymddeol ar ddiwedd tymor y Gwanwyn, wedi tair mlynedd ar ddeg o ddysgu yn Ysgol Feithrin y Waun. Bu'n gweithio'n galed ac yn frwdfrydig iawn dros y blynyddoedd ac fe fydd colled mawr ar ei hôl. Lwc dda iddi hi a'i theulu ar ran yr Ysgol.

## CYDYMDEIMLAD

CYDYMDEIMLAD: Dymunwn gydymdeimlo'n ddwys iawn â'r Parch. a Mrs.Haydn Thomas, Butleigh Avenue, Llandaf ar adeg trist yn eu bywydau. Bu farw tad Doreen yn Aberystwyth ddydd Iau, Mawrth 14, ac yna ar y Sadwrn, Mawrth 16, bu farw tad Haydn yn Rhydaman. Cydymdeimlwn hefyd ag Alison ar golli ei dau daid.

HOP-WOOD: Yn y rhifyn diwetha soniwyd am daith Martin Hopwood i'r Unol Daleithiau ym mis Mai. Yn anffodus torrodd Martin ei goes wrth chwarae pel-droed a bydd rhaid iddo golli'r trip. Felly, llongyfarchiadau y mis diwetha - ond cydymdeimlad a dymuniadau da y mis yma. Gwell lwc y tro nesa'.

CYMORTH: Ar Fawrth 3, ar ôl y gwasanaeth boreol darparwyd cawl ar gyfer cynulleidfa capel Salem, Canton gan blant yr Ysgol Sul. Trwy eu hymdrechion casglwyd £34 i brynu offer meddygol ar gyfer Ysbyty Shillions, Yr India. Llongyfarchiadau iddyn nhw.

YMGEISWYR: Yn fuan wedi i Gareth Westacott ddod yn rhydd o'r cyhuddiad yn ei erbyn yn Llys y Goron, Caerdydd, cyhoeddwyd y byddai dau o'i gyd-ddiffynyddion yn yr achos cynllwyn gwreiddiol yn sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiadau Cyngor Sir. Bydd Dafydd Burns, 26 oed, o Grangetown, a Nicholas Hodges, 23 oed, o Bontcanna yn ymladd dros Blaid Cymru yn wardiau Landsdowne a Phontcanna.

MAE BWRDD GOLYGYDDOL Y DINESYDD YN CADW'R HAWL I DALFYRRU UNRHYW ERTHYGLAU NEU LYTHYRAU SY'N CAEL EU CYHOEDDI YN Y PAPUR.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mis bywiog er y bydd ambell rwystr yn eich ffordd - byddwch yn amyneddgar! Mis rhamantus ond bydd rhwystrau yno hefyd.

TAURUS: Mae posibilrwydd o anghydfod gyda phlant. Bydd gennych ddigon o ynni - dyma'r amser i gymryd yr awennau - ond peidiwch a gorwneud dim rhag ofn i'ch iechyd ddioddef.

GEMINI: Efallai y bydd cyfeillion yn eich gadael i lawr mewn rhyw ffordd. Peidiwch â gwneud trefniadau pendant tan ddiwedd y mis. Cymrwch ofal o'ch iechyd.

CANCER: Daliwch eich gwynt y mis hwn - mi ddaw pethau'n well maes o law. Mae hwn yn gyfnod ardderchog i berffeithio'ch cynlluniau. Dylai'ch sefyllfa ariannol fod ar i fyny.

LEO: Mis fydd hwn i wireddu uchelgais yn eich gwaith. Cyfnod gwych i ddechrau menter newydd - ond daliwch eich tafod yn y tŷ rhag cythruddo neb!

VIRGO: Mae rhai anawsterau ariannol o'ch blaen - efallai bydd sieciau yn mynd ar goll neu gael eu dal yn ôl. Bydd perthynas agos yn mynnu mwy o'ch sylw - byddwch amyneddgar!

LIBRA: Mis emosiynol fydd hwn - ceisiwch gadw'ch tymer dan reolaeth! Tua diwedd y mis bydd diddordebau busnes yn ffynnu. Mis rhamantus iawn.

SCORPIO: Cadwch eich tafod dan reolaeth y mis hwn rhag brifo neb. Rhaid osgoi gorweithio er mwyn eich iechyd. Efallai byddwch yn cyfarfod a rhywun fydd yn ennyn eich brwdfrydedd.

SAGITTARIUS: Byddwch yn teithio i weld perthnasau y mis hwn. Cyfnod llewyrchus yn y gwaith - amser ardderchog i gychwyn ar fenter newydd. Mis ardderchog.

CAPRICORN: Mis i gymryd mantais o'ch gallu ymarferol fydd hwn a mis i'w fwynhau hefyd ac i ymlacio.

AQUARIUS: Daw rhwystrau a rhwystredigaethau ar eich traws ddechrau'r mis - peidiwch â chymryd dim yn ganiataol. Fe fydd llawer o'ch problemau yn cael eu datrys erbyn diwedd y mis. Cyfnod da i symud tŷ.

PISCES: Byddwch yn teithio cryd dipyn y mis hwn. Ceisiwch osgoi cweryla a pherthnasau. I fyny ac i lawr fydd eich sefyllfa ariannol. Byddwch yn cyfarfod a rhywun bydd o help mawr i chi.